Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

30.3.23

Annwyl rieni a gwarcheidwaid/ *Dear parents and guardians,*

Ar ddiwedd tymor prysur arall, ac ar drothwy gwyliau'r Pasg, hoffwn ddiolch i chi am eich cydweithrediad parod unwaith eto, yn arbennig yn ystod diwrnodau gweithredu diwydiannol athrawon 1 Chwefror, 2 Mawrth a phan y bu'n rhaid cau'r ysgol yn ddisymwth oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch o ganlyniad i eira ar 8 Mawrth. Parhaodd mwyafrif llethol o'n dysgwyr i weithio'n gydwybodol ac i gydwethredu gyda'r staff mewn gwersi dros y tymor, a thu allan i ddysgu ffurfiol cafwyd llwyddiannau nodedig. Enillodd Tîm Rygbi Bechgyn Cynta'r Ysgol Gwpan *Vase* Cymru am y tro cyntaf yn hanes yr ysgol a thimau chwaraeon eraill naill ai yn ennill pencampwriaethau sirol neu'n cyrraedd y rownd derfynol. Yn ogystal, cafwyd llawer o lwyddiant yn Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd gydag unigolion a grwpiau (y Côr Iau, yr Ensemble Offerynnol Iau, y Ddeuawd Offerynnol, Partion Cerdd Dant Iau ac Hŷn, yr Ensemble Lleisiol a'r Perfformiad Dramatig Iau) yn fuddugol ac felly yn symud ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gaerfyrddin yn Llanymddyfri dros y Sulgwyn. Bu llwyddiannau eraill hefyd i unigolion a grwpiau mewn meysydd eraill. Llongyfarchiadau i'r dysgwyr a'r staff a diolchwn iddynt am eu hymroddiad ardderchog.

Dymunwn yn dda iawn hefyd i ddysgwyr Blynyddoedd 10-13 sy'n wynebu arholiadau ar ôl gwyliau'r Pasg. Gwnaed y dysgwyr yn ymwybodol o'r dyddiadau ac hefyd fe rannwyd unrhyw gyfnodau adolygu a drefnwyd gan y staff dros Basg gyda nhw. Wrth gwrs, mae sesiynau adolygu eisoes yn digwydd ar ôl ysgol mewn rhai pynciau. Os oes gennych unrhyw ofidau penodol am eich plentyn, fel mae rhai ohonoch eisoes wedi gwneud, plis cysylltwch yn y lle cynta gyda'r Pennaeth Blwyddyn perthnasol. Fodd bynnag, gofynnaf yn garedig i chi annog eich plentyn i weithio ac adolygu yn rhesymol dros wyliau'r Pasg er mwyn lleihau ar y pwysau a fydd yn anochel arnynt yn ystod y tymor arholiadau.

Fe fydd yr ysgol yn ailagor i holl ddysgwyr yr ysgol ar Ddydd Llun, 17 Ebrill, a chyn terfynu, ar ran holl staff yr ysgol, hoffwn dymuno Pasg hapus, diogel ac heddychlon i chi a'ch teulu.

At the end of another busy term, and as we face the Easter holidays, I would like to thank you for your willing cooperation once again, particularly on the days of industrial action by teachers of 1 February, 2 March and when the school had to be close suddenly due to health and safety reasons as a result of snow on 8 March. The overwhelming majority of our learners continued to work conscientiously and to cooperate with staff in lessons over the term, and outside formal learning there were notable successes. The First School Boys Rugby Team won the Welsh Vase Cup for the first time in the school's history and other sports teams either won county championships or reached the

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
Heartbeat Award Gwobr Curiad Calon
Challenge Award nace 2015–2025
QS
SportsMarc NPFA
360safe Cymru Cynnydd i Ddiogelwch Ar-lein

final. In addition, there was much success at the Urdd District and County Eisteddfodau with individuals and groups (the Junior Choir, Junior Instrumental Ensemble, Instrumental Duo, Junior and Senior Cerdd Dant Parties, Vocal Ensemble and Junior Dramatic Performance) winning, and therefore progressing to compete at the Carmarthenshire Urdd National Eisteddfod in Llandovery over Whitsun. There have also been other successes for individuals and groups in other fields. We congratulate learners and staff and thank them for their excellent dedication.

We also wish Years 10-13 learners facing exams after the Easter holidays all the very best. Learners were made aware of the dates, and we have also shared with them any scheduled revision periods held by staff over Easter. Of course, revision sessions already take place after school in some subjects. If you have any specific concerns about your child, as some of you have already done, please contact in the first place the relevant Head of Year. However, I kindly ask you to encourage your child to work and revise reasonably over the Easter holidays to minimise the pressures that will inevitably be placed on them during exam season.

The school will reopen to all school learners on Monday, April 17, *and before concluding, on behalf of all school staff, I would like to wish you and your family a happy, safe and peaceful Easter.*

Yn gywir/*Yours sincerely*

J. Connick

(Pennaeth/*Headteacher*)

Pennaeth: Mr Jeffrey Connick BA
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk | https://www.yggwyr.org.uk